# Children in Wales
# Plant yng Nghymru

E-friffiad i aelodau 16 Awst 2019
Members' e-briefing 16 August 2019

This briefing is bilingual, click here for the English version.

---

Mae'r e-friffiad wythnosol hon yn cael ei baratoi'n arbennig ar eich cyfer chi fel rhan o'ch pecyn aelodaeth Plant yng Nghymru. Mae'n rhoi gwybodaeth i chi am y newyddion a'r polisïau diweddaraf sy'n effeithio ar blant a theuluoedd yng Nghymru, ac mae hefyd yn cynnwys manylion digwyddiadau a swyddi gwag a allai fod o ddiddordeb i chi.

I weld y rhestr lawn o fuddion aelodaeth sydd ar gael i chi, cliciwch yma. Os oes gennych sylwadau ar yr e-friffiad hon, cysylltwch â info@childreninwales.org.uk.

---

## *Swyddi Gwag*

Dewch o hyd i'r swyddi gwag diweddaraf ar wefan Plant yng Nghymru. Peidiwch ag anghofio - gall aelodau hysbysebu am ddim.

- Mae Plant yng Nghymru yn awyddus i glywed gan unrhyw un sydd â phrofiad o weithio gyda phobl ifanc a fyddai â diddordeb mewn ymuno â'n rhestr o weithwyr cyswllt. Rydym ni'n arbennig o awyddus i glywed gan siaradwyr Cymraeg sydd â diddordeb mewn gwaith cyfranogiad. Cysylltwch â lynne.hill@childreninwales.org.uk i gael rhagor o wybodaeth.

---

## *Hyfforddiant a digwyddiadau*

| | | |
|---|---|---|
| 11.09.2019 | "Cadw Ein Plant Yn Ddiogel" Hyfforddiant i'r Person Dynodedig Ar Gyfer Amddiffyn Plant | Conwy |
| 12.09.2019 | "Deall Awtistiaeth a'r ffordd y gall effeithio'r plentyn a'u teulu/gofalwyr" | Caerdydd |
| 19.09.2019 | LHDT a Datblygiad Plant | Conwy |
| 24.09.2019 | Pobl Ifanc a Chamddefnyddio Sylweddau | Caerdydd |

| | | |
|---|---|---|
| 25.09.2019 | Goruchwyliaeth: Model ar gyfer Ymarfer | Caerdydd |
| 03.10.2019 | ACE - Adeiladu Gwydnwch un wyneb Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod | Abertawe |

*Gellir cael mynediad at amserlen yr hyfforddiant a'r digwyddiadau yn llawn o wefan Plant yng Nghymru.*

*Cliciwch yma am ragor o wybodaeth am ddigwyddiadau a hyfforddiant i'n haelodau.*

---

## *Effaith y Mesur Hawliau Plant (Cymru) 2011*

Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn cynnal ymchwiliad byr i effaith y Mesur Hawliau Plant (Cymru) 2011.

Mae'r Pwyllgor am edrych i weld faint o effaith mae'r Mesur wedi'i chael ar benderfyniadau Llywodraeth Cymru. Mae hefyd am edrych i weld a yw'r Mesur wedi arwain at ganlyniadau gwell i blant a phobl ifanc yng Nghymru, ymhlith pethau eraill.

Bydd yr ymchwiliad yn dod i ben ar **20 Medi 2019 am 17:00.**

I gael rhagor o wybodaeth ynghylch sut mae cyflwyno tystiolaeth i'r ymchwiliad, a chylch gorchwyl llawn, ewch i wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

---

## *'Cadw'n Ddiogel?' Angen gwell cefnogaeth ar gyfer plant sydd mewn perygl o ddioddef ecsbloetio rhywiol*

Mae ymchwil newydd gan Brifysgol Caerdydd yn dangos bod angen gwell cefnogaeth ar gyfer plant sydd mewn perygl o ddioddef ecsbloetio rhywiol (CSE).

Bu'r ymchwil yn edrych ar achosion grwp o bobl ifanc a fu'n ymwneud â gwasanaethau plant yn 2006. Cawsant eu hasesu o ran risg ecsbloetio rhywiol.

Ffactor arwyddocaol o ran cynyddu'r risg oedd symud plant o'u llety. Dangosodd yr ymchwil fod siawns uwch i bobl ifanc ddioddef ecsbloetio rhywiol yn ddiweddarach po fwyaf y caent eu symud. Po amlaf y câi person ifanc ei symud, uchaf oedd y tebygolrwydd o brofi camdriniaeth mewn perthnasoedd oedolaeth gynnar, bod mewn sefyllfa ansefydlog o ran ty, a bod yn ddi-waith neu allan o fyd addysg.

Y math mwyaf buddiol o gefnogaeth oedd bod ag oedolyn cefnogol yn eu bywyd, a

gwaith un i un oedd yr ymyrraeth oedd yn fwyaf tebygol o helpu. Nid oedd ymatebion cyffredin i CSE, fel addysg perthnasoedd iach, yn cael effaith gadarnhaol yn achos y rhan fwyaf o bobl ifanc, yn ôl yr adroddiad, ac weithiau bydden nhw'n gwneud y sefyllfa'n waeth.

Mae'r adroddiad llawn, "Cadw'n Ddiogel?" Dadansoddiad o ganlyniadau gwaith gyda phobl ifanc yng Nghymru sydd wedi dioddef ecsbloetio rhywiol, ar gael o wefan Prifysgol Caerdydd.

---

## *Nodi blaenoriaethau ymchwil iechyd a llesiant ar gyfer plant 0 - 7 oed*

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cynhyrchu arolwg i helpu i lywio'u blaenoriaethau ymchwil yn ystod y deng mlynedd nesaf.

Nod yr arolwg, sydd wedi'i fwriadu ar gyfer gweithwyr proffesiynol ac eraill fel ei gilydd, yw nodi'r meysydd allweddol sy'n effeithio ar ganlyniadau iechyd a llesiant plant o gyfnod beichiogrwydd hyd at saith oed.

Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i ganfod bylchau yn eu gwybodaeth gyfredol am y canlyniadau gorau i'r grwp yma o blant. Ar ôl nodi'r bylchau, bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn creu agenda ymchwil ar gyfer y 10 mlynedd nesaf sy'n rhoi sylw i'r bylchau.

Dylai gymryd rhyw 10 munud i gwblhau'r arolwg, ac mae rhagor o wybodaeth am yr arolwg ar y dudalen lanio. Mae'r arolwg ar gael yn:

- Gymraeg
- Saesneg

Bydd yr arolwg ar gael tan wythnos gyntaf mis Hydref.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Michael Seaborne, Swyddog Cyfnewid Gwybodaeth yn Iechyd Cyhoeddus Cymru.

---

## *Adroddiad Blynyddol Dechrau'n Deg Ebrill 2018 - Mawrth 2019*

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Adroddiad Blynyddol Dechrau'n Deg ar gyfer y flwyddyn 2018 i 2019.

Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg ystadegol o waith y gwasanaeth rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2019.

Mae ystadegau allweddol yn nodi bod 36,367 wedi elwa o'r gwasanaeth yn ystod 18/19, nifer is na'r flwyddyn flaenorol, ond nifer oedd yn dal yn uwch

na'r disgwyl.

Manteisiwyd ar fwy o gynigion gofal plant mewn lleoliadau Dechrau'n Deg yn ystod y flwyddyn hon o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a gwelwyd cynnydd bychan yn nifer y plant oedd yn byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg oedd wedi cael imiwneiddiad llawn erbyn eu pen-blwydd yn bedair oed.

Gwelwyd rhywfaint yn llai o blant hyd at bedair oed gan ymwelwyr iechyd neu'r tîm iechyd ehangach nag yn y flwyddyn flaenorol, ac er bod cynnydd yn nifer y babanod 10 diwrnod oed oedd yn bwydo ar y fron ledled Cymru, roedd y nifer yn is mewn ardaloedd Dechrau'n Deg nag mewn ardaloedd eraill.

Mae'r ystadegau llawn i'w gweld yn yr adroddiad ar wefan Llywodraeth Cymru.

---

## *Ystadegau Addysg gan Lywodraeth Cymru*

Mae nifer o ystadegau addysg wedi cael eu cyhoeddi'n ddiweddar gan Lywodraeth Cymru. I gael rhagor o wybodaeth, gweler y datganiad unigol.

- Cyflawniad academaidd disgyblion 4-14 oed yn y pynciau craidd 2019: mae'r datganiad hwn yn cwmpasu cyflawniadau disgyblion mewn Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth. O gymharu â'r llynedd, cyflawnodd canran is o'r disgyblion y lefel ddisgwyliedig o leiaf. Mae'n bosibl mai'r rheswm am hynny yw newidiadau i sut mae data asesiadau athro yn cael ei gasglu.
- Asesiadau athro'r cwricwlwm cenedlaethol o bynciau heblaw pynciau craidd yn 2019: Mae'r datganiad hwn yn cwmpasu cyflawniadau disgyblion yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 mewn pynciau heblaw pynciau craidd. Gwelwyd gostyngiad hefyd yng nghanran y disgyblion a gyflawnodd y canlyniadau disgwyliedig o leiaf yn y pynciau heblaw pynciau craidd. Gallai hyn hefyd fod o ganlyniad i newidiadau yn y dull o gasglu data.
- Disgyblion sy'n cael eu haddysgu mewn mannau heblaw'r ysgol - Medi 2018 tan Awst 2019: roedd 2,286 o ddisgyblion yn cael eu haddysgu mewn mannau heblaw'r ysgol yn ystod y cyfnod hwn a chododd cyfradd EOTAS i 3.8 fesul 1,000 o ddisgyblion.
- Canlyniadau cyfrifiad ysgolion ym mis Ionawr 2019: Yn bennaf yn sgîl cyfuno ysgolion, gwelwyd gostyngiad yn nifer yr ysgolion a gynhelid gan awdurdodau lleol ers mis Ionawr 2018. Hefyd roedd llai o athrawon cymwys cyfwerth ag amser llawn ers yr un cyfnod.

---

Am y newyddion a'r polisi diweddaraf ewch i wefan Plant yng Nghymru.

---

# Children in Wales
# Plant yng Nghymru

This weekly e-briefing is prepared exclusively for you as part of your membership to Children in Wales. It provides you with information on the latest news and policy impacting on children and families in Wales, and also includes details of events and vacancies which may be of interest to you.

To view the full list of membership benefits that you can access, please click here. If you have any comments about this e-briefing please contact info@childreninwales.org.uk.

## *Vacancies*

Find the latest job vacancies on the Children in Wales website. Don't forget - members can advertise for free.

- Children in Wales would like to hear from anyone with experience of working with young people who would be interested in joining our list of associated. We would particularly like to hear from Welsh speakers interested in participation work. Please contact lynne.hill@childreninwales.org.uk for more information.

## *Training and events*

| | | |
|---|---|---|
| 11.09.2019 | "Keeping Our Children Safe" Training for the Designated Person for Child Protection | Conwy |
| 12.09.2019 | "Understanding Autism and how it can impact on a child and family/carers" | Cardiff |
| 19.09.2019 | LGBT & Child Development | Conwy |
| 24.09.2019 | Young People & Substance Misuse | Cardiff |
| 25.09.2019 | Supervision: A Model for Practice | Cardiff |
| 03.10.2019 | ACE - Building Resilience in the Face of Adverse Childhood Experiences | Swansea |

*The full training and events schedule can be accessed from the Children in Wales website.*

*Click here for more information about our members' events and training.*

## *The impact of the Children's Rights (Wales) Measure 2011*

The Children, Young People and Education Committee is undertaking a short inquiry into the impact of the Children's Rights (Wales) Measure 2011.

The Committee wants to examine how much of an effect the Measure has had on the Welsh Government's decision making. It also wants to examine whether or not the Measure has led to improved outcomes for children and young people in Wales, among other things.

The inquiry closes on **20 September 2019 at 17:00.**

For more information on how to submit evidence to the inquiry, and a full terms of reference, please visit the National Assembly for Wales' website.

---

## *'Keeping Safe?' Better support needed for children at risk of sexual exploitation*

New research from Cardiff University shows that better support is needed for children at risk of sexual exploitation (CSE).

The research examined the cases of a group of young people who were involved with children's services in 2006. They were assessed for their risk of sexual exploitation.

A significant factor in increased risk was moving children from their accommodation. The research showed that the more a young person was moved, the higher their chances of becoming victims of CSE later. The more a young person was moved, the higher the likelihood that they would experience abuse in intimate early adulthood relationships, having an unstable housing situation and being unemployed or out of education.

The most beneficial type of support was to have a supportive adult in their life, with one to one work the intervention that was most likely to help. Common responses to CSE, like healthy relationships education, did not have a positive impact for most young people, the report said, and sometimes made things worse.

The full report, "Keeping Safe?" An analysis of the outcomes of work with sexual exploited young people in Wales, is available from the Cardiff University website.

---

## *Identifying health and well-being research priorities for children 0 -*

## *7 years*

Public Health Wales has produced a survey to help inform their research priorities over the next ten years.

The survey, aimed at professionals and non-professionals alike, aims to identify key areas that affect the health and well-being outcomes of children from during pregnancy to seven years old.

Public Health Wales will use this information to identify gaps in their current knowledge on the best outcomes for this group of children. With the gaps identified, Public Health Wales will create a research agenda for the next 10 years which addresses the gaps.

The survey should take about ten minutes to complete, and there is more information about the survey on its landing page. The survey is available in:

- English
- Welsh

The survey will be available until the first week of October.

For more information, please contact Michael Seaborne, Knowledge Exchange Officer at Public Health Wales.

---

## *Flying Start Annual Report April 2018 to March 2019*

The Welsh Government has published the Flying Start Annual Report for the year 2018 to 2019.

The report supplies a statistical overview of the service's work from April 2018 to March 2019.

Key statistics note that 36,367 benefited from the service during 18/19, which was lower than the year before, but still higher than expected.

More offers of childcare at Flying Start settings were taken up this year compared with the year before, and there was a slight increase in the number of children living in Flying Start areas who were fully immunised by their fourth birthday.

Children up to the age of four were seen slightly less than the year before by health visitors or the wider health team, and while there was an increase in the numbers of babies at 10 days old breastfeeding across Wales, the number was lower in Flying Start areas than in non-Flying Start areas.

For the full statistics, you can find the report on the Welsh Government website.

---

## *Education statistics from Welsh Government*

A number of education statistics have been published recently by the Welsh Government. For more information, please see the individual release.

- Academic achievement of pupils aged 4 to 14 in core subjects 2019: this release covers pupils' achievements in English, Welsh, Mathematics and Science. Compared to last year, the percentage of pupils achieving at least the expected level was lower. This could be because of changes to the way that teacher assessment data is collected.
- National curriculum teacher assessments of the non-core subjects 2019: This release covers pupil achievements in Key Stage 2 and 3 in non-core subjects. The percentage of pupils achieving at least the expected results also fell in the non-core subjects. This could also be a result of changes to the way data is collected.
- Pupils educated other than at school - September 2018 to August 2019: 2,286 pupils are being educated other than at school during this period and the rate of EOTAS increased to 3.8 per 1,000 pupils.
- Schools' census results as at January 2019: Mainly because of school mergers, the number of local authority maintained schools dropped since January 2018. There were also less full-time equivalent qualified teachers since the same period.

---

For the latest news and policy please visit the Children in Wales.

---


STAY CONNECTED:

Dewiswch yr wybodaeth rydych yn dymuno ei derbyn

I newid eich dewisiadau ac i ddweud wrthym ni pa negeseuon e-bost rydych yn dymuno eu derbyn, cliciwch **'Diweddaru Proffil'** isod.

I atal pob e-bost oddi wrth Plant yng Nghymru, cliciwch '**Datdanysgrifio**'.

Byddwch yn Ymwybodol: Os **cliciwch Datdanysgrifio**, byddwch yn datdanysgrifio o holl wybodaeth a negeseuon e-bost marchnata Plant yng Nghymru.

Choose the information you want to receive

To change your preferences and tell us which emails you want to receive, click **'Update Profile'** below.

To stop all e-mails from Children in Wales, click '**Unsubscribe**'.

Please, Be Aware: If you **click unsubscribe**, you will be unsubscribing from all Children in Wales information and marketing emails.